

Cysylltiadau dŵr - cais

Am gysylltiad newydd i'r rhwydwaith dŵr presennol.

I gael rhagor o wybodaeth:

G: hdcymru.co.uk/newconnections

Ff: 0330 6781 481

Cadwch gopi o'ch cais ar gyfer eich cofnodion eich hun.

Cynnwys

Adran 1 Manylion yr ymgeisydd

Adran 2 Manylion y safle

Adran 3 Cysylltiadau dŵr safonol

Adran 4 Manylion plymio

Adran 5 Rhestr wirio a thalu

Adran 6 Datganiad

Adran 1

1a. Manylion yr ymgeisydd

Enw cyswllt Nodyn 1.1	
Cyfeiriad Nodyn 1.2	
	Cod Post
Rhif ffôn	Rhif ffôn symudol
Cyfeiriad e-bost	Rhif cwmni cofrestredig Nodyn 1.3

1b. Manylion asiant/ymgyngorydd (cwblhewch dim ond os ydych yn defnyddio asiant neu ymgyngorydd) Nodyn 1.4

Enw'r asiant/ymgyngorydd	
Cyfeiriad yr asiant/ymgyngorydd	
	Cod Post
Rhif ffôn	Rhif ffôn symudol
Cyfeiriad e-bost	Rhif cwmni cofrestredig Nodyn 1.3

1c. Gohebiaeth

Gyda phwy ddylem ni ohebu?

Ymgeisydd

Asiant

A oes unrhyw un arall y byddech chi'n hapus i ni drafod eich cais ag ef/hi? Os oes, rhowch wybod i ni yma:

Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?

E-bost

Post

Adran 2

2a. Manylion y safle

Beth ydych chi'n ei adeiladu ar y safle?

Enw'r Safle

Cyfeiriad **Nodyn 2.1**

Cyfesurynnau XY

Cod Post

2b. Defnydd blaenorol o'r safle

Os yw'r safle wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen, gall fod risg fod y tir wedi ei halogi.

Er mwyn sicrhau nad fydd eich cyflenwad a'n rhwydwaith yn cael eu halogi, cadarnhewch y canlynol:

Ar gyfer beth y defnyddiwyd y safle yn flaenorol? **Nodyn 2.2:**

Tai

Tir Glas/Amaethyddiaeth

Diwydiant

Tirlenwi

Arall:

Os mai tir glas ydoedd, nid oes angen i chi lenwi adran 2c.

Os ydych chi'n gwneud cais am gysylltiad dŵr a bod y safle wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth ar wahân i dir glas, mae angen i chi gynnwys adroddiad dadansoddi pridd y safle gyda'ch cais NEU bydd yn ofynnol i chi osod pibellau amddiffynnol (gall hyn gynyddu cost eich cais). Ticiwch pa opsiwn sy'n berthnasol. Nodyn 2.3

Adroddiad pridd wedi'i gynnwys

Pibellau amddiffynnol i'w gosod

2c. Cyflenwadau blaenorol

Dywedwch wrthym am unrhyw eiddo a allai fod wedi cael cysylltiad dŵr neu garthffos blaenorol sydd wedi'i filio gan Severn Trent (ST) neu Hafren Dyfrdwy (HD).

Os bu gan yr eiddo yma gysylltiad na fydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'ch datblygiad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a allwn osod credydau ar eich taliadau seilwaith a allai leihau'r swm y bydd angen i chi ei dalu. **Nodyn 2.4**

Cyfeiriad yr eiddo blaenorol	Defnydd blaenorol (Masnachol neu ddomestig)	Dyddiad dymchwel	Rhif cyfrif ST neu HD

Adran 3 - Cysylltiad(au) dŵr safonol

(Adrannau 45 a 55 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991)

Dim ond os ydych chi'n gwneud cais am gysylltiad(au) dŵr safonol (25mm neu 32mm) y mae angen i chi gwblhau'r adran hon. Os oes angen cysylltiad mwy arnoch chi, llenwch y ffurflen gais am Gysylltiad Diamedr Mawr.

Cysylltiad dŵr safonol yw cysylltiad hyd at 32mm mewn diamedr. Bydd hyn yn darparu hyd at 1 litr yr eiliad a dylai fod yn ddigonol ar gyfer pob eiddo domestig (fflatiau/tai teras/pâr/ar wahân).

Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer eiddo masnachol nad ydynt angen mwy nag 1 litr yr eiliad, e.e. bloc swyddfeydd sydd angen dŵr ar gyfer cyfleusterau cegin ac ystafell ymolchi yn unig. Os nad ydych yn siŵr, gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell math o lif yn [hdcymru.co.uk/building-and-developing/overview](https://www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/overview) er mwyn gwirio.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch. Bydd hyn yn ein helpu i gofnodi'ch cais yn gywir ac i drefnu ymweliad safle os oes angen ac i anfon amcan bris atoch cyn gynted â phosibl.

3a. Y cyflenwad presennol

A oes cyflenwad gan Hafren Dyfrdwy ar y safle ar hyn o bryd?

Oes

Nac oes

Ydych chi'n bwriadu cadw'r cyflenwad dŵr byw?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, ar gyfer pa blot fydd hwn yn cael ei ddefnyddio?

Fyddwch chi'n defnyddio cyflenwad presennol â mesurydd ar gyfer adeiladu?

Byddaf

Na fyddaf

Os byddwch, rhowch y rhif cyfrif Hafren Dyfrdwy i ni: **Nodyn 3.1**

3b. Cysylltiad(au) newydd sydd eisiau

Os nad yw'r cysylltiad at bwrpas domestig na masnachol, dywedwch wrthym beth yw'r rheswm dros y cysylltiad. **Nodyn 3.2**

Cyflenwi adeilad dros dro

Cafn amaethyddol

Dyfrhau

Dŵr proses yn unig

Arall:

Os mai dŵr proses, dywedwch wrthym ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r raddfa llif sydd ei hangen mewn litrau yr eiliad:

Os mai dim ond am gysylltiad dŵr rydych chi'n gwneud cais, dywedwch wrthym sut bydd y dŵr gwastraff yn cael ei waredu. Mae hyn er mwyn i ni gadw cofnod at bwrpasau mesur y galw ar y rhwydwaith a bilio. **Nodyn 3.3**

A fydd dŵr wyneb yn gollwng i'r garthffos gyhoeddus? **Nodyn 3.4**

Bydd

Na fydd

Ydych chi'n gosod system draenio gynaliadwy?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion yma (e.e. suddfannau):

Ydych chi wedi gwneud cais ar wahân i HD am gysylltiad carthffos?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, dywedwch wrthym yma beth yw'r cyfeirnod

Ydych chi wedi gwneud cais i Gwmni Dŵr a Charthffosiaeth (CDCh) arall am gysylltiadau dŵr budr a/neu ddŵr wyneb?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch wybod i ni:

Enw'r CDCh rydych chi wedi gwneud cais iddo

Cyfeirnod y cais/ceisiadau

Ar y tudalennau nesaf:

Ar gyfer eiddo domestig, dim ond tabl 1 y mae angen i chi ei lenwi

Ar gyfer eiddo masnachol, dim ond tabl 2 y mae angen i chi ei lenwi

3c. Adwerthwr

Nid yw'r Farchnad Adwerthu Dŵr yn weithredol yng Nghymru, ac eithrio cystadleuaeth gyfyngedig mewn perthynas â chwsmeriaid sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn. Os yw hyn yn berthnasol i'ch safle chi, gellir gweld rhestr o adwerthwyr yn open-water.org.uk

Os ydych wedi dewis eich adwerthwr yn barod, rhowch ei enw i ni yma:

Adran 4 - Manylion plymio

1. A oes unrhyw eiddo â'i lawr gwaelod wedi'i godi fwy na phum metr uwchlaw'r briffordd gyhoeddus, h.y. ffordd neu lwybr? Oes Nac oes
2. Gan gynnwys y llawr gwaelod beth yw uchafswm nifer y lloriau mewn adeilad unigol?
3. A yw'r system dŵr poeth i'w bwydo'n uniongyrchol o'r prif gyflenwad dŵr? (e.e. combi/heb fent) Ydy Nac ydy
4. A fydd gosodiadau plymio dŵr glaw, dŵr wedi'i ailgylchu neu ddŵr llwyd yn cael eu defnyddio? **Nodyn 4.1** Bydd Na fydd
5. Ai trwy ffordd neu stryd breifat y mae cael mynediad i'r eiddo? Ie Nage
6. A fydd systemau chwistrellu tân yn cael eu gosod yn yr eiddo? **Nodyn 4.2** Bydd Na fydd
7. Lle ceir cysylltiad trwy gyflenwad unigol i eiddo amffeddianaeth, a fyddwch chi'n gosod mesuryddion dŵr wedi'u cyflenwi gan Hafren Dyfrdwy? **Nodyn 4.3** Byddaf Na fyddaf

Adran 5 - Rhestr wirio a thalu

Anfonwch yr holl wybodaeth atom cyn gynted ag y gallwch er mwyn i ni allu prosesu'ch cais a dod yn ôl atoch cyn gynted â phosibl.

Mae ffi am bob math o gais; mae i'w weld isod a gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am ein ffioedd yn hdcymru.co.uk/application-forms-and-guidance neu drwy'n ffonio ni ar **03306781481**. Mae'r opsiynau talu ar y dudalen nesaf, ond os ydych chi'n talu trwy siec, gwnewch yn siŵr ei bod yn sownd yn ddiogel i'r ffurflen gais a bod yr holl eitemau'n cael eu postio gyda'i gilydd.

Os na fyddwn yn derbyn y ffi/ffioedd ymgeisio o fewn 30 diwrnod o dderbyn eich cais, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad ydych chi eisiau bwrw ymlaen â'r cais hwn.

5a. Cysylltiad dŵr safonol

Eitem	Wedi'i gynnwys	Nid oes angen
Cynllun lleoliad yn dangos yr eiddo sydd angen cysylltiad (h.y. cynllun arolwg ordnans)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Adroddiad dadansoddi pridd os oes angen(gweler adran 2)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cynllun o'r safle yn dangos llwybr pibell wasanaeth y cwsmer i ffin y briffordd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ar gyfer eiddo masnachol, cynllun i raddfa o'r safle yn dangos arwynebedd y safle cyfan ac arwynebedd pob uned.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Taliad cychwynnol: gweler ein llyfryn taliadau diweddaraf sydd ar gael ar ein gwefan	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5b. Manylion talu

Dywedwch sut y byddwch yn talu'r ffi ymgeisio:

Siec Cerdyn debyd/credyd BACS

Ar gyfer taliadau cardiau debyd/credyd, byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn derbyn y cais er mwyn cymryd taliad.

Gwnewch unrhyw siec yn daladwy i Hafren Dyfrdwy a'i phostio atom gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau.

Rhowch eich siec yn sownd i'r ffurflen gais a'u postio gyda'i gilydd.

Os ydych chi'n gwneud taliad BACS anfonwch eich taliad i'n banc gan ddefnyddio'r manylion hyn:

Enw'r cyfrif: Hafren Dyfrdwy Cyf

Banc: Barclays

Cod didoli: 20-00-00

Rhif cyfrif: 33604071

Rhif UTR: GB486985565

Rhif cwmni cofrestredig: 054 15325 13168

Dywedwch ar ba ddyddiad y gwnaed y taliad, pwy a'i gwnaeth a'r rhif cyfeirnod BACS fel y gallwn baru'ch cais â'ch taliad.

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw daliad BACS wedi'i wneud cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Cyf BACS	
Talwr	
Dyddiad	
Swm	

Anfonwch unrhyw geisiadau wedi'u llenwi a'r wybodaeth ategol at:

Hafren Dyfrdwy Cyf

PO Box 5311

Coventry

CV3 9FL

Neu anfonwch nhw trwy e-bost at new.connections@hdcymru.co.uk mewn ffeil zip.

Os byddwch yn anfon eich cais atom drwy e-bost, byddwn yn cymryd y byddwch yn talu gyda cherdyn credyd/debyd a byddwn yn cysylltu â chi i gael taliad.

Adran 6 - Datganiad (i'w lofnodi gan yr ymgeisydd):

Rwy'n cadarnhau mai fi yw perchennog a/neu deiliad yr eiddo dan sylw yn y cais hwn. Felly byddaf yn atebol am y taliadau sy'n deillio o'r cais hwn fel y'u nodir yn y rhestr gyfredol o Daliadau Datblygwyr a'r dyfynbris a ddarperir gan Hafren Dyfrdwy Cyf ar gyfer y cysylltiad(au) dŵr. Byddaf yn cydymffurfio â phob gofyniad statudol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a lle maent yn berthnasol, Rheoliadau CDM 2015 (fel y'u diwygiwyd).

Mae'r wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwy'n derbyn y gall fod rhaid i Hafren Dyfrdwy newid eu dyfynbris os bydd unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon yn ddiweddarach. Rwyf wedi fy awdurdodi'n briodol i arwyddo ar ran yr Ymgeisydd.

Llofnodwyd		Dyddiad	
Enw llawn mewn priflythrennau		Enw'r cwmni (os ydych chi'n arwyddo ar ran Cwmni)	
Cyfeiriad			

Nodiadau canllaw

Nodyn 1: Manylion yr ymgeisydd

1.1 Yr Ymgeisydd yw perchennog/deiliad y safle sydd angen y cysylltiad. Yr unigolyn/cwmni hwn sy'n gyfrifol am gynnwys y ffurflen gais ac am dderbyn yr amodau a nodir yn natganiad y cais.

1.2 Sicrhewch fod y cyfeiriad llawn a'r manylion cyswllt yn cael eu darparu. Gellir defnyddio'r manylion cyfeiriad hyn ar gyfer cysylltu a gohebiaeth yn y dyfodol.

1.3 Rhif Cwmni Cofrestredig: Rhif cofrestru'r busnes fel y'i cyhoeddwyd gan Dŷ'r Cwmnïau (www.companieshouse.gov.uk).

1.4 Byddwn yn derbyn ffurflen gais a gwblhawyd gan Asiant/Ymgynghorydd, fodd bynnag, yr Ymgeisydd sy'n parhau'n gyfrifol am gynnwys y cais a rhaid iddo/iddi lofnodi'r ffurflen gais.

Nodyn 2: Manylion y safle

2.1 Rhowch gymaint o gyfeiriad y safle ag sydd ar gael ar adeg cyflwyno'r cais. RHAID i'r cyfeiriad hwn gynnwys: enw ffordd, tref/dinas a sir.

2.2 Diffiniadau o ddefnydd blaenorol

a) Tir glas/amaethyddiaeth: Arwynebedd tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer amaethyddiaeth, tir coedwig neu ryw safle arall heb ei ddatblygu

b) Tai: Safle wedi'i neilltuo ar gyfer eiddo domestig

c) Diwydiant: Safle wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd masnachol neu ddiwydiannol

d) Tirlenwi: Safle gwaredu lle caiff gwastraff solet, megis papur, gwydr, a metel, ei gladdu rhwng haenau o faw a deunyddiau eraill yn y fath fodd ag i leihau halogi'r tir cyfagos.

Mae tir gwneud yn arwynebedd tir sydd wedi ei greu gan ddyn, fel arfer trwy adfer tir corsydd, llynnoedd neu lannau. Defnyddir tirlenwi artiffisial, yn cynnwys deunyddiau naturiol, ysbwriel, ac ati.

2.3 Cynhelir ymchwiliad i bridd a thir wedi'i halogi mewn dau gam¹;

Cam I – astudiaeth ddesg

Prif nod adroddiad amgylcheddol Cam I ydy casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ffurfio model cysyniadol er mwyn bod mewn sefyllfa ble gellir asesu presenoldeb a/neu arwyddocâd unrhyw halogi tir ar y safle. Mae'r wybodaeth sy'n deillio o hynny yn galluogi cynnal asesiad risg rhagarweiniol.

Cam II – astudiaeth fewnwithiol

Dyma astudiaeth fewnwithiol ar y safle sy'n galluogi logio proffil y pridd ac wedi hynny, gellir casglu samplau o bridd a dŵr daear i'w dadansoddi'n gemegol. Caiff y risg ei hasesu wedyn er mwyn canfod y niwed posibl i dderbynwyr ar y safle yn ogystal ag oddi ar y safle o halogyddion y gwyddys amdanynt.

NODWCH: Os na chaiff adroddiad dadansoddi pridd cyflawn ei gyflwyno, efallai na fyddwn yn gallu penderfynu beth yw amodau'r tir a byddwn yn parhau i brosesu'r cais a bydd pibellau gwarchoddedig yn cael eu gosod, a allai gynyddu cost y gwaith sydd i'w wneud.

2.4 Mae taliadau seilwaith yn ariannu cynnal ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth lleol sydd eu hangen i wasanaethu galw ychwanegol.

Gwneir y taliadau hyn o dan Adran 146 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae atebolrwydd am daliadau seilwaith yn codi pan fo eiddo a godir o'r newydd yn cael ei gysylltu â'r systemau dŵr neu garthffosiaeth cyhoeddus ac yn gallu derbyn dŵr at ddibenion domestig. Ar safleoedd ailddatblygu, rhoddir credyd am bob eiddo a oedd â chysylltiad dŵr yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Bydd taliadau seilwaith yn cael eu cynnwys yn y dyfynbris a gewch ar gyfer cysylltu'r cyflenwad dŵr er nad oes angen cyfreithiol am daliad nes bod y cysylltiad dŵr wedi'i wneud. Gweler ein cynllun taliadau cyfredol sy'n nodi gwybodaeth bellach ynglŷn â thaliadau seilwaith (sylwer nad yw hyn yn berthnasol i'r taliadau cysylltu y mae'n rhaid eu talu ymlaen llaw).

Cofiwch, os nad ydych yn gwybod rhif y cyfrif ar gyfer yr eiddo blaenorol, ni fydd hyn yn atal y cais rhag cael ei brosesu. Fodd bynnag, bydd y wybodaeth hon yn galluogi i'r cais gael ei brosesu'n gyflym.

RHAID i wybodaeth am adeiladau ychwanegol gynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl a ddangosir yng nghwestiwn 1.

Nodiadau canllaw

Nodyn 3: Cysylltiad(au) dŵr safonol

3.1 Os oes gennych gyfrif byw ond nad oes gennych unrhyw ddogfennaeth yn cynnwys y rhif cyfrif 10 digid, cysylltwch a'n hadran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar **0330 678 0646**.

3.2 Codir tâl arnoch am ddŵr ar gyfer adeiladu os:

- nad ydych yn defnyddio cyflenwad presennol â mesurydd,
- yw'r cysylltiad yn gysylltiad diamedr mawr ar gyfer eiddo domestig wedi'i adeiladu o'r newydd,
- yw'r cysylltiad yn un safonol 25mm neu 32mm ar gyfer unrhyw eiddo domestig wedi'i adeiladu o'r newydd,
- unrhyw eiddo masnachol â chysylltiad 25mm

3.3 Dŵr budr: Dŵr budr yw'r dŵr gwastraff o'ch toiled, bidet, bath, basnau, sinciau, peiriannau golchi, peiriannau golchi llestri a chawodydd ac ati.

3.4 Dŵr wyneb: Dŵr wyneb yw glaw wrth iddo gasglu ar y to ac o amgylch yr eiddo oddi mewn i'r ffiniau.

3.5 Rhoddir enghreifftiau o bwrpasau'r eiddo yn y rhestr isod:

- Tŷ - Teras/fflat
- Tŷ - Pâr
- Tŷ - Ar wahân

Mae sawl ystafell wely sydd mewn tŷ yn effeithio maint y bibell a ddefnyddir ar gyfer y cysylltiad.

- eiddo 1 – 2 ystafell wely = pibell 25mm
- eiddo 3 – 5 ystafell wely/eiddo 3 llawr = pibell 32mm.

Ble mae angen systemau chwistrellu, lleiafswm maint y bibell fydd 32mm.

3.6 Rhowch fanylion y cyfeiriad ar gyfer yr eiddo y gwneir y cysylltiad iddo.

Nodyn 4: Manylion plymio

4.1 Dŵr llwyd: Dŵr gwastraff a gynhyrchir o weithgareddau domestig fel golchi dillad, golchi llestri ac ymolchi.

4.2 Dylid dylunio systemau chwistrellu yn unol â BS EN 12845:2004 a Diwygiad 2:2009.

4.3 Oni chytunir yn wahanol, mae'n amod i'r cysylltiad bod gan bob eiddo newydd sy'n cael ei gysylltu gysylltiad â mesurydd ar wahân at bwrpas bilio. Ble byddwn yn cytuno i wneud cysylltiad unigol i eiddo amlfeddianaeth (fflatiau ac apartments fel rheol), mae'n amod i'r cysylltiad bod pibellau a mesuryddion dŵr yn cael eu gosod yn unol â'r manylebau a osodir yng ngofynion gosod mesuryddion Hafren Dyfrdwy.

Mae yna drefniadau mesur penodol ar gyfer eiddo amlfeddianaeth y mae angen eu deall cyn i'r mesuryddion gael eu gosod:

- Bydd pob uned breswyl unigol a/neu ardal gymunedol yn yr eiddo yn cael ei mesur yn unigol.
- Caiff y mesuryddion eu darparu gan Hafren Dyfrdwy, ond yn y rhan fwyaf o achosion, byddant yn cael eu gosod gan y datblygwr; fodd bynnag, bydd Hafren Dyfrdwy yn gosod y mesurydd am dâl os gofynnir iddynt. Dim ond mesuryddion a gyflenwir gan Hafren Dyfrdwy a ganiateir.
- Yn y cam "Derbyn y Dyfynbris" mae angen i'r datblygwr gyflwyno lluniadau o bob llawr sy'n nodi:
 - Pob plot gyda rhif y plot
 - Unrhyw ardal gymunedol a/neu ardal i'r landlord sydd â chyflenwad dŵr
 - Lleoliad arfaethedig pob mesurydd
- Ni fydd y cysylltiad â'r safle yn cael ei drefnu nes bod y wybodaeth hon wedi'i darparu a'i derbyn. Mae'n ofynnol i'r Datblygwr ddarparu darluniau diwygiedig i ni os gwneir unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i nifer a/neu leoliad yr eiddo preswyl, cyflenwadau cymunedol a'r landlord.